Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amddiffynfeydd Arfordirol Dwyrain y Rhyl ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

Bydd Cynllun Amddiffyn Arfordirol Dwyrain y Rhyl, a ariannwyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru, yn amddiffyn 1,650 o eiddo yn Nwyrain y Rhyl rhag llifogydd arfordirol.

**Nod y prosiect, a gyflwynwyd gan Balfour Beatty, oedd sicrhau canlyniadau llesiant mwyaf posibl drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid lleol, allweddol, drwy Ganolfan Buddion Cymunedol Sir Ddinbych.**

Yn costio £23 miliwn ar y cyfan, hwn oedd y prosiect mawr cyntaf i ddefnyddio Canolfan Buddion Cymunedol Sir Ddinbych, a lansiwyd ym mis Mawrth 2020. Cynhaliodd y Ganolfan gyfarfodydd misol gyda'r contractwr a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru, grwpiau a mentrau cymunedol amrywiol a arweinir gan y gymuned leol.

Cyflawnwyd amrywiaeth eang o fuddion drwy gydol y prosiect. Mae rhai o'r buddion amgylcheddol yn cynnwys 99% o wastraff wedi'i dargyfeirio o safleoedd tirlenwi, gostyngiad o 82% $CO_2$ ar y safle, a chreu tri phwll sy'n gwella 35 erw o wlypdir ym Mhrestatyn. Fe wnaeth busnesau lleol hefyd elwa o'r prosiect, gyda 99% o werth y contract yn cael ei wario gydag is-gontractwyr wedi'u lleoli o fewn 40 milltir i'r prosiect, ac 86% o'r gadwyn gyflenwi yn BBChau. Darparwyd cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau hefyd, gydag 8 swydd newydd wedi'u creu, 191 o ddiwrnodau brofiad gwaith wedi'i ddarparu, a 112 o fyfyrwyr wedi'u ymgysylltu drwy weithgareddau cwricwlwm a STEM.

Cynigiwyd buddion iechyd a lles i weithwyr tîm y prosiect, yn ogystal â'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys ymwybyddiaeth iechyd meddwl "I Can" a sgrinio iechyd "I Will," a oedd yn cynnwys gwiriad iechyd a ffordd o fyw llawn. Cynhaliwyd mentrau cymunedol lleol, gan gynnwys rhoddion i fanciau bwyd lleol, a rhoi deunyddiau i greu ardal i ysgolion lleol ei defnyddio fel ystafell ddosbarth awyr agored, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn dangos y canlyniadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni trwy gaffael cymdeithasol gyfrifol. Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar gael yma: Cynllun Amddiffyn Arfordirol Dwyrain Y Rhyl | Cyngor Sir Ddinbych (denbighshire.gov.uk).



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48967
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Astudiaeth achos

Rhagfyr 2023